# Edrych ar sut rydyn ni'n cadw plant a phobl ifanc yn ddiogel ym Mhowys

## Arolygiad ar y Cyd o Drefniadau Amddiffyn Plant



Estyn HMICFRS AGIC Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru / HIW Healthcare Inspectorate Wales Arolygiaeth Gofal Cymru / Care Inspectorate Wales

Hydref 2023

# Helo

Mae Arolygiaeth Gofal Cymru yn gwirio ac yn arolygu gwasanaethau. Rydyn ni'n gwneud yn siŵr bod gwasanaethau'n gwneud y pethau iawn yn y ffyrdd iawn. Gallwn weithredu os nad ydyn nhw.

Ym mis Hydref 2023, fe wnaethom wirio sut mae gwasanaethau ym Mhowys yn cadw plant yn ddiogel.

**Fe wnaethom wirio'r canlynol:**

- beth maen nhw'n ei wneud i ddelio â chamdriniaeth ac esgeulustod
- sut maen nhw'n asesu, cynllunio a gwneud penderfyniadau i gadw plant yn ddiogel
- pa mor dda y mae arweinwyr a rheolwyr yn gweithio
- sut mae gwasanaethau'n gweithio gyda' i gilydd

## Pwy wnaeth gymryd rhan?

**Cawsom gymorth gan:**

- Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Fawrhydi a Gwasanaethau Tân ac Achub
- Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
- Estyn

**Fe wnaethom arolygu:**

- Bwrdd Iechyd Addysgu Powys
- Gwasanaethau awdurdodau lleol — gwasanaethau plant, ysgolion a mwy
- Heddlu Dyfed Powys





## Beth wnaethon ni

Fe wnaethon ni gynnal grwpiau ffocws.

Buom yn siarad â phlant am eu gofal a'u cymorth.

Fe wnaethon ni siarad â staff a gweithwyr proffesiynol.

Fe wnaethon ni anfon arolygon allan.

Fe wnaethon ni wirio cofnodion 16 o blant.

Fe wnaethon ni ymweld ag ysgolion, gan gynnwys ysgol arbennig.

Fe wnaethon ni edrych ar dystiolaeth.

Fe wnaethom ni siarad â sefydliadau a grwpiau.

Fe wnaethom arsylwi cynadleddau amddiffyn plant a sut mae staff yn gweithio.

# Rhai o'n prif ganfyddiadau

## Cymorth ac amddiffyniad

Mae llawer o staff a gweithwyr proffesiynol medrus. Maent yn gweithio gyda'i gilydd, yn gweithredu'n gyflym ac yn gwybod sut i gadw plant a phobl ifanc yn ddiogel.

## Gweithio gyda'n gilydd

Mae gwasanaethau a sefydliadau'n cydweithio'n dda ac yn deall yr hyn mae'n rhaid iddyn nhw ei wneud i gadw plant yn ddiogel.

## Cyfarfodydd amddiffyn plant

Mae gweithwyr proffesiynol o bob rhan o wasanaethau a sefydliadau yn mynychu'r cyfarfodydd hyn ac yn rhannu gwybodaeth i gadw plant yn ddiogel.

## Bwrdd Diogelu Rhanbarthol Canolbarth a Gorllewin Cymru

Mae'r Bwrdd Diogelu hwn yn cwmpasu ardal fawr ond maen nhw'n dda am rannu gwybodaeth ac adnoddau. Maen nhw'n rhoi arweiniad ac yn helpu gweithwyr proffesiynol i ddeall sut i nodi risgiau, gwneud atgyfeiriadau ac amddiffyn plant.

## Ysgolion

Mae ysgolion ar draws Powys yn gweithio'n dda gyda llawer o wasanaethau eraill i gefnogi plant.

## Arweinyddiaeth

Mae uwch arweinwyr a rheolwyr yn gadarnhaol ac yn cefnogi'r gweithlu. Maen nhw'n gweithio fel tîm ac yn rhoi diogelwch plant a'u hanghenion wrth wraidd eu gwaith.

## Pwysau ar wasanaethau

Mae angen cymorth gan wasanaethau ar fwy o blant a theuluoedd.

## Rhannu gwybodaeth a gwneud atgyfeiriadau

Mae gweithwyr proffesiynol a staff sy'n gweithio ar draws gwasanaethau yn rhannu gwybodaeth yn y ffyrdd cywir. Maen nhw'n gwneud yr atgyfeiriadau cywir fel bod plant yn cael y gefnogaeth gywir.

Ond mae gwasanaethau'n defnyddio systemau gwahanol ac mae hynny'n gallu gwneud rhannu gwybodaeth yn anoddach.



## Mae gweithwyr proffesiynol a staff ar draws Powys yn deall sut mae camdriniaeth, esgeulustod a niwed yn effeithio ar blant.

Maen nhw'n:

- rhoi plant yn gyntaf ym mhopeth a wnânt
- gwybod sut i nodi risgiau a gweithredu
- cydweithio'n dda â gwasanaethau eraill
- meddu ar ddull cadarnhaol o ddysgu a datblygu sgiliau
- sicrhau bod gwybodaeth a chofnodion yn gywir ac yn gyfredol
- rhannu gwybodaeth a rhoi gwybod am bryderon yn y ffyrdd cywir
- camu i mewn yn gynnar i gefnogi plant a theuluoedd
- gwrando ar blant a phobl ifanc a'u cynnwys nhw mewn penderfyniadau
- atal plant rhag ymwneud â phobl anniogel neu droseddu
- mynychu cyfarfodydd strategaeth a chynadleddau amddiffyn plant
- cymryd rhan mewn paneli, grwpiau a fforymau.

## Recriwtio a chadw staff

Mae dod o hyd i staff yn her ac nid oes digon o weithwyr cymdeithasol.

Mae gwasanaethau wedi bod yn llenwi'r bwlch gyda gweithwyr asiantaeth sy'n ddrud. Mae gwasanaethau nawr yn dechrau recriwtio staff mwy parhaol.



# Rhai o'r pwyntiau da y gwnaethon ni eu canfod

## Bwrdd Iechyd Addysgu Powys

**Mae'r Bwrdd Iechyd yn gweithio'n dda gyda gwasanaethau eraill. Mae ganddyn nhw lawer o staff sydd wedi'u hyfforddi'n dda sy'n gwybod sut i nodi risg a chadw plant yn ddiogel.**

Maen nhw yn:

- sicrhau bod meddygon, nyrsys a gweithwyr proffesiynol eraill yn deall amddiffyn plant
- gwirio cofnodion a sicrhau bod plant yn ddiogel pan fyddant yn cynnal archwiliadau meddygol
- sicrhau bod cofnodion meddygol yn gywir, yn gyfredol ac yn cynnwys gwybodaeth am gefndir, diwylliant ac iaith plentyn
- gwrando ar blant a phobl ifanc
- sicrhau bod staff yn yr Unedau Mân Anafiadau yn gwybod sut i nodi p'un a yw plentyn mewn perygl
- mynychu cyfarfodydd diogelu a chyfarfodydd eraill
- sicrhau bod plant â phrofiad gofal yn ddiogel a bod staff yn deall y risgiau maen nhw'n eu hwynebu
- gwirio p'un a yw plentyn ar y gofrestr amddiffyn plant
- sicrhau bod plant yn ddiogel os yw eu rhieni'n cael cymorth gan wasanaethau iechyd meddwl
- cynnwys CAMHS (Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed) sy'n gweithio gydag ysgolion a gwasanaethau eraill
- amddiffyn plant nad ydynt wedi eu geni
- gweithio gyda gwasanaethau ar draws siroedd eraill
- gwirio ansawdd eu gwaith a gweithredu i wella

**Mae nyrsys ysgol ac ymwelwyr iechyd:**

- yn cael gwybod os yw plentyn yn mynd i'r Unedau Mân Anafiadau
- yn cynnal asesiad iechyd os yw enw'r plentyn yn cael ei roi ar y gofrestr amddiffyn plant
- yn rhoi cyngor a chefnogaeth i bobl ifanc drwy system negeseuon testun o'r enw CHAT

### Tîm diogelu

Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd wedi buddsoddi mewn tîm diogelu sy'n:

- gwirio atgyfeiriadau
- rhoi cyngor i staff os ydyn nhw'n credu bod plentyn mewn perygl
- rhoi cymorth a hyfforddiant i staff



**Ym mhob ysgol y gwnaethom ni ymweld â nhw, roedd y disgyblion yn teimlo'n hapus, yn ddiogel a'u bod nhw'n cael eu clywed.**



## Ysgolion ac addysg

**Mae cadw plant a phobl ifanc yn ddiogel yn flaenoriaeth fawr i bob gwasanaeth addysg.**

Maen nhw yn:

- camu i'r adwy yn gyflym pan fyddan nhw'n credu bod plentyn mewn perygl
- gwybod sut i gadw plant yn ddiogel
- gwybod sut i nodi materion yn gyflym a chefnogi teuluoedd
- sicrhau bod plant yn gwybod pa mor bwysig yw perthnasoedd iach a diogel, gan gynnwys ar-lein
- gwrando ar blant a phobl ifanc
- cefnogi iechyd a lles plant
- gweithio gyda gwasanaethau eraill gan gynnwys gwasanaethau iechyd a gwasanaethau plant
- gwybod sut i rannu gwybodaeth a herio penderfyniadau
- cynnwys Arweinwyr Diogelu Dynodedig
- cael cefnogaeth gan swyddogion addysg
- cynnwys Cynorthwywyr Cymorth Llythrennedd Emosiynol (ELSA) i gefnogi llesiant
- mynychu cynadleddau amddiffyn plant, cyfarfodydd diogelu a fforymau eraill
- cynnwys arweinwyr a rheolwyr cryf sy'n deall eu rolau a'u cyfrifoldebau
- hyfforddi staff i ddeall sut i nodi risgiau a chadw plant yn ddiogel
- rhoi hyfforddiant diogelu i Lywodraethwyr


## Heddlu Dyfed Powys

**Mae gan yr heddlu systemau da sy'n eu helpu i nodi pan fydd plentyn mewn perygl fel eu bod nhw'n ei gyrraedd yn gyflym ac yn ei amddiffyn.**

Maen nhw yn:

- ymchwilio pan fyddant yn credu bod plentyn mewn perygl
- gwybod sut i asesu risg a gwneud y penderfyniadau cywir
- cadw cofnodion a gwybodaeth arall yn gyfredol ac yn gywir
- siarad ac yn gwrando ar blant a phobl ifanc
- gweithio'n dda a rhannu gwybodaeth gyda gwasanaethau eraill
- meddu ar systemau i rybuddio staff pan fydd plentyn ar y gofrestr amddiffyn plant
- cynnwys staff arbenigol sy'n gwirio cofnodion ac yn gallu gweld pan fydd plant mewn perygl o gael eu cam-drin, eu masnachu neu eu hecsbloetio
- cynnwys atebwyr galwadau sy'n gwybod sut i asesu risg a sicrhau bod yr heddlu'n cyrraedd plant sy'n agored i niwed yn gyflym
- cynnwys arweinwyr sy'n deall eu rôl a'u cyfrifoldebau
- hyfforddi staff i wybod sut i wneud penderfyniadau gwybodus
- mynd i gyfarfodydd diogelu gyda gwasanaethau eraill
- cefnogi lles eu staff

**Mae trinwyr galwadau yn gwybod sut i nodi pan fydd plentyn mewn perygl ac yn sicrhau bod yr heddlu'n cyrraedd yn gyflym.**



**Er bod nifer yr atgyfeiriadau wedi cynyddu, nid oes gan y Gwasanaethau Plant restrau aros.**



## Gwasanaethau Plant

**Mae gan wasanaethau plant staff sydd wedi'u hyfforddi'n dda sy'n gwybod sut i adnabod risgiau a chadw plant yn ddiogel.**

Maen nhw yn:

- camu i'r adwy yn gynnar a chefnogi teuluoedd
- gwirio atgyfeiriadau a gweithredu'n gyflym
- gweithio gydag ysgolion, gwasanaethau eraill a sefydliadau cymunedol
- gweithio gyda theuluoedd a chymunedau i gadw plant yn ddiogel
- cynnwys swyddogion llesiant sy'n helpu i ddarparu cynlluniau gofal a chymorth
- cynnal asesiadau a sicrhau bod plant yn cael y lefel gywir o gymorth
- sicrhau bod y wybodaeth yn gyfredol ac yn gywir
- sicrhau bod cynlluniau gofal a chymorth yn cynnwys profiad bywyd y plentyn
- rhannu gwybodaeth gyda rhieni fel eu bod nhw'n deall pam mae penderfyniadau'n cael eu gwneud a beth sydd angen digwydd
- cynnwys arweinwyr sy'n deall eu rolau a'u cyfrifoldebau
- cynnwys rheolwyr ar gael i gefnogi lles staff
- cynnwys Swyddogion Adolygu Annibynnol (IROs) sy'n sicrhau bod plant yn cael y cymorth cywir
- rhoi hyfforddiant a chyfleoedd i staff rannu arfer da
- mynychu cyfarfodydd diogelu gyda gwasanaethau eraill
- gwirio ansawdd eu gwaith a gweithredu i wella

# Ei wneud yn well ar gyfer y dyfodol

**Dyma rai ffyrdd rydyn ni'n credu y gall gwasanaethau wella:**

- Rhannu gwybodaeth am ganlyniadau atgyfeiriadau yn well.
- Siarad â phlant a phobl ifanc a'u cynnwys yn fwy.
- Gweithiwr Cymdeithasol fel eu bod nhw'n cael cyfleoedd i siarad am eu profiad.
- Gwneud yn siŵr bod cofnodion yn cynnwys gwybodaeth am bob rhan o fywyd plentyn — ethnigrwydd, crefydd ac iaith.
- Cymryd camau i recriwtio a chadw staff ar draws yr holl wasanaethau, gan gynnwys staff sy'n siarad Cymraeg.
- Sicrhau bod pawb yn gwybod y risgiau mae plant yn eu hwynebu yn eu hardal.
- Gwneud yn siŵr bod plant ar y gofrestr amddiffyn plant yn cael amser ar eu pen eu hunain gyda'u Gweithiwr Cymdeithasol fel bod ganddynt gyfleoedd i siarad am eu profiad.
- Gwneud yn siŵr bod cynlluniau gofal a chymorth yn cael eu gwirio a'u diweddaru'n rheolaidd.
- Sicrhau bod pob plentyn yn ddiogel, gan gynnwys y rhai sy'n cael eu haddysgu gartref.
- Gwneud yn siŵr bod plant yn gallu cael gofal a chymorth yn y Gymraeg.
- Sicrhau bod pob aelod o staff yn cael cyfleoedd i hyfforddi a datblygu sgiliau.
- Sicrhau bod pob system TG yn gallu cysylltu a rhannu gwybodaeth yn well.
- Sicrhau bod cynlluniau amddiffyn gofal a chymorth yn rhoi'r plentyn yn gyntaf ac yn cael canlyniadau clir.
- Gwneud yn siŵr bod ysgolion yn cael gwybod os yw plentyn wedi dioddef cam-drin domestig fel y gallant ei gefnogi'n well.
- Pan fydd plentyn ar goll o ofal, gwneud yn siŵr bod gwybodaeth yn cael ei chofnodi a'i rhannu yn y ffyrdd cywir.

**Mae rhannu gwybodaeth ar yr adeg iawn, yn y ffyrdd cywir yn gwneud gwahaniaeth mawr!**



# Y camau nesaf

Rydym ni wedi ysgrifennu at yr holl wasanaethau dan sylw i egluro'r hyn y daethom ni o hyd iddo a'r hyn mae'n rhaid iddyn nhw ei wneud. Byddant yn rhoi gwybod i ni sut maen nhw'n bwriadu gwella eu gwaith.

Byddwn yn arolygu gwasanaethau eto yn y dyfodol.

## Diolch am ddarllen hwn.

Gallwch ddarllen yr adroddiad llawn yma:
arolygiaethgofal.cymru/adolygiad-ar-y-cyd-gan-arolygiaethau-o-drefniadau-amddiffyn-plant-jicpa-powys-2023

Edrych ar sut rydyn ni'n cadw plant a phobl ifanc yn ddiogel ym Mhowys
ISBN 978-1-83577-514-1

